**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

**Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**2:00 yh, 24 Mehefin 2016**

**Siambr Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni**

**Presennol:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Richard Dew
Cyng. John Griffith
Cyng. John Arwel Roberts

**Cyngor Gwynedd**
Cyng. Gwen Griffith
Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. Dyfrig Jones

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Rhun ap Gareth | Uwch Gyfreithiwr (CG) |
| Nia Haf Davies | Rheolwr - UPCC |
| Gareth Jones | Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd (CG) |
| Dylan Williams | Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (CSYM) |
| WE Jones | Uwch Reolwr Cyllid (CG) |
| Eirian Harris | Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol - UPCC |

**Ymddiheuriadau:**

Cyng. John Brynmor Hughes (CG)
Cyng. Michael Sol Owen (CG) - Eilydd
Cyng. John Pughe Roberts (CG)

1. **ETHOL CADEIRYDD AM 2016 - 1017**

Cafodd Cyng Dafydd Meurig ei ethol fel Cadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a Phanel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd am y cyfnod 2016 – 2017.

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD AM 2016 -2017**

Cafodd Cyng Richard Dew ei ethol fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a Phanel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd am y cyfnod 2016 – 2017

3. **YMDDIHEURIADAU**

Fel a nodwyd.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

5. **MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

Cafodd Dylan Williams ei gyflwyno fel Pennaeth Adran newydd Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn dilyn ymddeoliad Jim Woodcock. Fe wnaeth o roi amlinelliad o rai o'r materion a phrosiectau fydd angen sylw yn ystod y misoedd nesaf, sydd yn cynnwys rhoi Cyngor Sir Ynys Mon mewn lle da i allu manteisio ar y cyfleon trawsnewidiol. Bydd mabwysiadu'r Cynllun yn gam pwysig yn ogystal a adolygu'r Canllawiau Cynllunio Atodol am Wylfa newydd.

6. **COFNODION**

Derbyniwyd Cofnodion Pwyllgor 29 Ionawr 2016 fel y rhai cywir ac fe wnaeth y Cadeirydd eu harwyddo.

7. **DATGANIAD LLWYDODRAETHU BLYNYDDOL AR GYFER PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gareth Jones a oedd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae'n ofyniad statudol bod datganiadau o'r math yma'n cael eu paratoi. Eglurwyd bod gofynion y Rheoliadau wedi newid ers y llynedd. Golyga hyn na fydd angen cyflwyno'r Datganiad i'r Pwyllgor eto yn ystod 2016 – 17, oni bai bod Swyddfa Archwilio Cymru yn argymell newidiadau iddo. Cafodd y Datganiad ei arwyddo gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

8. **CYFRIFON TERFYNOL PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (AR GYFER Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31/3/16)**

Cyflwynwyd adroddiad gan W E Jones oedd yn ymateb i ofyniad statudol o dan Adran 12 o Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004 i adrodd yn benodol am gyfrifo ac archwilio cyfrifon Pwyllgorau ar y Cyd.

Eglurwyd fod angen cwblhau ffurflenni swyddogol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru a byddai'r ffurflenni'n destun archwiliad ar wahân.

Cyflwynwyd copi o'r ffurflenni yn Atodiad A & B. Bydd yr Archwilydd Penodedig, sef Deloitte, (archwilwyr allanol a benodwyd gan Gyngor Gwynedd) yn archwilio'r wybodaeth. Esboniwyd i'r Pwyllgor nad oes angen ail-gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Medi 2016 (cyn iddo gael ei ardystio gan yr Archwiliwr) oherwydd newid yn y drefn, oni bai bydd angen tynnu sylw'r Pwyllgor at newidiadau argymhellir gan yr Archwilydd Penodedig.

Ni chafwyd ymholiadau ynglŷn a'r Cyfrifon ac fe gafodd y dogfennau perthnasol eu harwyddo gan y Cadeirydd ar ran Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.